
# LLIFED CYFIAWNDER

Cafodd gwasanaeth Offrwm y Pasg 2024 ei baratoi gan fudiad Merched Methodistaidd ym Mhrydain i gefnogi Cronfa Cenhadaeth y Byd.




## Offrwm y Pasg 2024

Mae Cronfa Cenhadaeth y Byd yn cefnogi gwaith gyda dros 100 o eglwysi a mudiadau partner ar draws y byd, mewn cydweithrediad â'r Eglwys Fethodistaidd yn Iwerddon.

Merched Methodistaidd ym Mhrydain
dros ferched, dros gyfiawnder, dros Grist

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

## Croeso

Croeso cynnes iawn i'n gwasanaeth Offrwm y Pasg. Mae mudiad Merched Methodistaidd ym Mhrydain, sy'n elusen sy'n ceisio cyfiawnder, wedi dewis y thema, 'Llifed Cyfiawnder' ar gyfer yr oedfa eleni.

Mae'r gwasanaeth hwn, sy'n cael ei rannu gan gymunedau eglwysig ar hyd a lled gwledydd Prydain, yn codi arian i bartneriaethau byd-eang yr Eglwys Fethodistaidd drwy gyfrwng Cronfa Cenhadaeth y Byd, mewn cydweithrediad â'r Eglwys Fethodistaidd yn Iwerddon.

Mae Merched Methodistaidd ym Mhrydain yn paratoi gwasanaeth Offrwm y Pasg bob blwyddyn fel rhodd i'r teulu Methodistaidd, gan ddilyn traddodiad o godi arian a ddechreuodd bron 140 o flynyddoedd yn ôl. Bydd yr holl arian gaiff ei gasglu yn cael ei roi'n uniongyrchol i Gronfa Cenhadaeth y Byd.

## Galwad i Addoli

> "Ond llifed barn fel dyfroedd, a chyfiawnder fel afon gref!"
>
> (Amos 5:24, BCND)

## Emyn Dewisol: Haleliwia, Haleliwia (*CFf* 408)

## Gweddi Ymgasglu

Arglwydd, wrth i ni ddod at ein gilydd fel dy bobl di, cymuned fechan yn nheulu dy Eglwys fyd-eang, gwna ni'n agored i'th garu di ac i garu ein cymdogion. Cyflwynwn ein calonnau i'th addoli a'n bywydau i'th wasanaeth. Adnewydda ein nerth ac ail-ddeffra ein gweledigaeth wrth i ni gwrdd i ganfod ein ffordd o'r newydd, ynot ti. **Amen.**

## **Emyn:** Mi glywaf dyner lais (*CFf* 483)

## Sylwadau Agoriadol

Mae Amos yn sôn am gyfiawnder yn llifo “fel afon gref...”. Mae hyn yn dweud wrthym nad yw cyfiawnder Duw yn gyfyngedig ond yn hytrach ei fod yn treiglo ymlaen, gan gasglu momentwm wrth i bobl weithio dros gyfiawnder ac wrth i’w gweithredoedd fwydo i mewn i gymunedau ac i fywydau.

Does dim modd ystyried bod cyfiawnder wedi’i gyflawni byth. Yn hytrach, mae Duw yn ein galw i ymwybyddiaeth a gweithredu parhaus.

Wrth rannu straeon a thrwy’r weithred hon o addoli galwn ar bobl Dduw i hyrwyddo’r hyn sy’n iawn - gan annog pawb ym mhobman i roi gwerth ar gyfiawnder, yn unigol ac yn y gymuned hefyd.

## Gweddïau o Fawl a Chyffes

Gyda gogoniant y Pasg yn ein calonnau, down o’th flaen di, Dduw cariad, mewn mawl a diolchgarwch. Addolwn di a diolchwn i ti am y newyddion da fod Iesu wedi atgyfodi a’i fod yn fyw yn ein plith.

**Am yr wybodaeth dy fod gyda ni bob amser, molwn di.**

Mae dy gariad yn amgylchynu ein byd: gwelwn di yng ngrym a goleuni’r haul, yn nerth y gwynt a thonnau’r môr, yn ehangder a harddwch ein bydysawd ac yng nghydbwysedd bywyd o’r pryfyn lleiaf i’r creadur mwyaf yn y môr.

**Am yr wybodaeth dy fod gyda ni bob amser, molwn di.**

Molwn di am amrywiaeth y byd hwn ac am fywyd o bob math, am y cyfleoedd i'th wasanaethu di ac i wasanaethu ein gilydd bob dydd.

**Am yr wybodaeth dy fod gyda ni bob amser, molwn di.**

Ac eto, rydyn ni wedi cymryd dy roddion yn ganiataol. Rydyn ni wedi anwybyddu arwyddion newid hinsawdd, rydyn ni wedi llygru afonydd a moroedd, gan ddifetha dy greadigaeth ryfeddol.

**Dysg ni i fyw yn ôl dy werthoedd di, ac nid ein gwerthoedd ein hunain.**

Dydyn ni ddim wedi rhannu ein hadnoddau, gan greu newyn, caledi a rhyfeloedd. Rydyn ni wedi anwybyddu galwadau am gymorth.

**Dysg ni i fyw yn ôl dy werthoedd di, ac nid ein gwerthoedd ein hunain.**

Maddau i ni, Dduw'r Atgyfodiad. Helpa ni i adfywio dy fyd, i ganfod gwell ffyrdd o fyw mewn heddwch a chytgord. Siarad â ni drwy'r tymor llawen hwn a llenwa ni â gwell ymddiriedaeth a ffydd ddyfnach er mwyn i ni fyw fel pobl dy rym atgyfodedig.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu, ein Crist Atgyfodedig. **Amen.**

## **Gwylio:** Cyflwyniad i Gronfa Cenhadaeth y Byd

Mae'r gwasanaeth hwn yn dathlu rhoddion Pasg y Methodistiaid i Gronfa Cenhadaeth y Byd. Dyma animeiddiad byr am y gwaith y bydd eich cyfraniadau yn ei gefnogi.

I weld y fideo newydd hwn am Gronfa Cenhadaeth y Byd ewch i: **methodist.org.uk/WorldMissionFund**

## **Stori:** Cyfiawnder i bobl sy'n cael eu rhoi ar y cyrion oherwydd anabledd - stori gan ein cymuned Fethodistaidd fyd-eang.

Ar hyd a lled y byd, mae pobl ag anableddau yn aml yn cael eu trin yn annheg ac yn ei chael hi'n anodd herio'r anghyfiawnder y maen nhw'n ei brofi. Mewn rhai cymdeithasau, mae anabledd yn dabŵ: mae pobl sy'n anabl yn aml yn cael eu hunain wedi'u gwthio i ymylon eu cymunedau, a hyd yn oed i ymylon eu teuluoedd.

Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn Tanzania yn gweithio i newid hyn, gyda chefnogaeth Cronfa Genhadaeth y Byd. Mae'r Eglwys yn Tanzania yn angerddol am ddod yn agos at bobl sy'n anabl ac sydd wedi eu hanghofio gan gymdeithas.

Mae'r Eglwys yn gweithio i newid agweddau cymunedau cyfan tuag at anabledd. Mae'n cynnig hyfforddiant i feithrin sgiliau pobl sy'n anabl er mwyn iddyn nhw allu gofalu amdanynt eu hunain ac i annog eu teuluoedd a'u cymunedau i feddwl yn wahanol amdanyn nhw, ac am yr holl bobl sy'n byw gydag anableddau.

Dau berson sydd wedi cael eu helpu yw Mariam a Pascal.

Mae gan Mariam nam ar ei lleferydd sy'n ei rhwystro rhag dweud pethau syml yn hawdd - felly dydy pobl ddim yn siarad â hi. Doedd ganddi hi ddim llawer o ffrindiau ac roedd yn cael ei chau allan o fywyd y gymuned. Doedd hi ddim yn gallu dod o hyd i waith ac roedd hi'n cael trafferth i ofalu am ei phlentyn.

Fodd bynnag, gyda chymorth yr Eglwys yn Tanzania, mae Mariam wedi sefydlu busnes yn gwneud siarcol, sy'n rhoi incwm iddi hi. Mae hyn yn golygu bod Mariam yn gallu bwydo ei phlentyn, a'i bwydo ei hun. Mae hi'n cael ei derbyn yn y gymuned: mae agweddau pobl tuag at Mariam yn

wahanol - mae hi'n un ohonyn nhw erbyn hyn, ac mae pobl yn rhoi croeso cynnes iddi yn yr eglwys i ymuno yn yr addoliad.

Mae Pascal yn ei chael hi'n anodd cerdded oherwydd bod diabetes yn effeithio ar y nerfau yn ei draed. Felly yn ganol oed - pan oedd yn disgwyl bod yn aelod o'i gymuned oedd yn cael ei barchu - cafodd Pascal ei hun yn cael ei gau allan o weithgareddau arferol. Ychydig iawn o fwyd oedd ganddo, ac roedd yn ei chael hi'n anodd iawn cadw ei gyflenwad dŵr yn ddigonol. Dydy hynny ddim yn deg. Ond gyda chefnogaeth yr eglwys, mae bywyd Pascal wedi newid. Heddiw, mae ganddo fferm ieir lewyrchus, gyda chig ac wyau i'w fwydo ei hun ac i'w gwerthu i eraill.

Wrth i'r Eglwys ddod â newid i fywydau pobl fel Mariam a Pascal, mae cyfiawnder yn lledu allan at fwy o bobl ag anableddau yn y gymuned ehangach. Mae pobl oedd yn byw ar yr ymylon bellach yn hunan-gynhaliol. Mae ganddyn nhw ymdeimlad newydd o urddas. Mae agweddau'n newid, mae pobl yn cael eu derbyn, cyfleoedd yn cael eu creu a chymunedau'n cael eu hehangu.

Fel Mariam a Pascal, mae Elizabeth yn anabl ac wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd hynny. Ond mae hithau hefyd wedi derbyn cymorth gan yr Eglwys, ac am wahaniaeth mae hynny wedi'i wneud! Meddai: "Mae'r gefnogaeth wedi bod yn gymorth mawr i mi a dwi'n diolch i Dduw fod yr Eglwys wedi cofio amdanaf i. Cyn hynny, doedd yna ddim byd yr oeddwn i'n gallu ei wneud, ond bellach dwi'n cyfrannu at y gymuned ac mae pobl yn fy mharchu i."

## **Emyn:** O tyred i'n gwaredu (*CFf* 375)

## **Darlleniad:** Luc 18:1-8

## Myfyrdod ar y Darlleniad

## **Stori:** Gweithio am gyfiawnder mewn byd anghyfiawn - stori o hanes y Methodistiaid

Ym 1834 llofnododd dros 800,000 o bobl o bob cwr o'r wlad ddeisebau i'r Senedd i wyrdroi anghyfiawnder mawr. Mae hwn yn rhif anhygoel - tua un o bob 20 o bobl, yn barod i sefyll a chael eu cyfrif mewn cyfnod lle nad oedd llawer o gyfathrebu torfol, dim cyfryngau cymdeithasol na Change.org, a llawer o bobl y cyfnod yn methu darllen nac ysgrifennu. Roedd hefyd yn gyfnod sensitif o ran protestio, ac eto pan gafodd y ddeiseb ei chyflwyno i'r Ysgrifennydd Cartref, daeth dros 100,000 o bobl allan ar strydoedd Llundain i ddangos eu cefnogaeth.

Yn greiddiol i'r stori yma roedd chwech o weision fferm o Dorset oedd wedi dod at ei gilydd i brotestio am y trydydd gostyngiad mewn cyflogau mewn tair blynedd - i lawr i chwe swllt yr wythnos pan oedd y 'cyflog byw' ar y pryd yn agosach at ddeg swllt.

Doedd dim byd yn anghyfreithlon yn yr hyn yr oedden nhw'n ei wneud, ond daeth tirfeddianwyr dig ac ynadon o hyd i gyfraith lled anhysbys am dyngu llwon i'w defnyddio i'w herlyn. Cafodd y chwech eu dedfrydu i'w halltudio i Awstralia am saith mlynedd, ac ar ben hyn, gwnaeth yr awdurdodau bopeth o fewn eu gallu i wneud bywyd yn anodd i'w teuluoedd er mwyn gwneud esiampl ohonyn nhw hefyd.

Roedd y ddeiseb yn llwyddiannus, ac ar ôl sawl oediad, cafodd Merthyron Tolpuddle ddod yn ôl i Brydain yn y pen

draw. Daeth y rhan fwyaf o'r grŵp i fyw i Essex lle buon nhw'n parhau i gefnogi achosion megis yr hawl i bobl gyffredin bleidleisio. Ond parhaodd yr awdurdodau i wneud eu bywydau'n anghysurus, ac yn y diwedd fe symudon nhw i Ganada.

Ydy hi'n berthnasol bod nifer o'r Merthyron yn Fethodistiaid, gyda dau ohonyn nhw'n Bregethwyr Lleol? Mae haneswyr yn credu hynny. Roedd y llysoedd wedi eu synnu i glywed pa mor dda yr oedd eu harweinwyr yn siarad: roedden nhw wedi disgwyl i'r achos fod yn un hawdd dros ben, ac eto roedd y gweithwyr amaethyddol distadl yma'n gallu darllen, ysgrifennu a dal sylw cynulleidfa mewn cyfnod pan nad oedd ysgolion i'r tlodion. Roedd eu llefaredd a'u llythrennedd wedi cael eu meistroli drwy bregethu cylchdaith a'u Hysgol Sul Fethodistaidd. Wrth iddyn nhw astudio'r Beibl drostynt eu hunain, roedden nhw wedi dod yn hyderus yn cyhoeddi teyrnas lle gall pob person ffynnu.

Daeth eu hesiampl ddewr yn garreg filltir enwog ar gyfer cyfiawnder yn hanes Prydain y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar y llwybr a arweiniodd at ddiwygio etholiadol, addysgiadol ac mewn gwaith.

## **Emyn:** Rho imi galon lân, O Dad (*CFf* 676)

## **Myfyrdod:** Hedyn cyfiawnder

[1]Hedyn cyfiawnder:
Galwad unig,
Protest:
‘Dydy hi ddim yn deg!’
Yn treiglo, yn ennill grym.

[2]Gwreiddyn cyfiawnder:
‘Wyt ti’n fy nghlywed i?
Wyt ti ddim yn gweld yr annhegwch?
Ymuna gyda fi!”
Yn treiglo, yn ennill grym.

[3]Blaguryn cyfiawnder:
Siarad gyda dy gymdogion,
Dy gyfeillion,
Dy deulu,
Yn treiglo, yn ennill grym.

[4]Blodyn cyfiawnder:
Beth wnei di?
Ei daenu’n ehangach,
Darlledu, Gweddïo.
Yn treiglo, yn ennill grym.

[5]Ffrwyth cyfiawnder:
Gweithredu gyda’n gilydd,
Ymgyrchu, dyfalbarhau,
Gweddïo,
Mae Duw gyda thi.

[6]Yn treiglo, yn ennill grym.
‘Dos a dwyn ffrwyth’,
Mae hi’n amser am y cynhaeaf!
Ydy cyfiawnder wedi’i gyflawni byth?

(Ruth Parrott)

## **Darlleniad:** Amos 5:18-24

## **Stori:** Gweithio am gyfiawnder mewn darlun sy’n symud - stori masnach deg

Llifed cyfiawnder... i lawr at y tyfwyr, y cynhyrchwyr a’r crefftwyr yn Ne’r Byd er mwyn iddyn nhw dderbyn pris teg ar gyfer y nwyddau y maen nhw’n eu cynhyrchu. Yn union fel y brwydrodd Amos yn erbyn y cloriannau twyllodrus yn ei ddydd, felly mae Duw wedi codi proffwydi yn ein cenhedlaeth ni i fynnu cyfiawnder i’w bobl yn y farchnadfa fyd-eang.

Ym 1979 sefydlodd Richard Adams Traidcraft, sefydliad a'n hanogodd ni i ystyried cynhyrchwyr yn fwy fel partneriaid ac a siaradodd yn erbyn pŵer cynyddol corfforaethau amlwladol oedd yn canolbwyntio ar eu helw eu hunain yn hytrach na lles eu cyflenwyr.

Cafodd masnach deg ei groesawu gan gymunedau ffydd a rhai â dim ffydd, a thyfodd y mudiad gyda sefydlu'r Sefydliad Masnach Deg. Bu angerdd gyffredin dros gyfiawnder yn fodd i ddenu pobl i ymgyrchu yn ogystal â siopa dros fasnach deg.

Er enghraifft, yn yr ymgyrch 'derbynneb til', bu cynrychiolwyr Eglwysi yn casglu derbynebau til pawb oedd wedyn yn cael eu hanfon fesul llond sach at yr archfarchnadoedd mawr.

Dangosodd hyn rym gwariant arferol pobl gyffredin a pherswadiodd hynny'r archfarchnadoedd mawr i roi cynnyrch masnach deg ar eu silffoedd.

Mae effaith y mudiad masnach deg yn cael ei gweld mewn cymunedau ar draws y byd. Lle mae pobl yn cael pris teg am eu cynnyrch, maen nhw'n gallu buddsoddi mewn gwell bywydau iddynt eu hunain ac i'w plant. Daeth bendithion partneriaethau masnach deg yn amlwg yn ystod y pandemig - yn Bangladesh cafodd pentrefi cyfan eu cefnogi wrth i olchydd dwylo a mygydau gael eu prynu gyda'r premiwm a enillwyd gan y gydweithfa masnach deg leol.

Mae'r mudiad masnach deg bellach yn ehangu ei weledigaeth o gyfiawnder ac mae'n helpu cymunedau i ddelio gyda materion amgylcheddol a mynd i'r afael â newid hinsawdd - gan ddod â chyfiawnder nid yn unig i bobl ond i'r greadigaeth hefyd. Er enghraifft, yn India cefnogodd Traidcraft Exchange y gwaith o adeiladu gwaith trin elifiant, gan alluogi gweithwyr

tecstilau i drin y dŵr sy'n cael ei ddefnyddio i lifo brethyn; cyn hynny roedd y dŵr yma wedi bod yn llygru'r cyrsiau dŵr lleol yn ddifrifol.

Yn anffodus, daeth busnes Traidcraft yn anhyfyw ac aeth i ddwylo gweinyddwyr ym mis Ionawr 2023. Fodd bynnag, mae ei etifeddiaeth yn parhau mewn llawer o fusnesau, bach a mawr, sy'n mewnforio nwyddau ar delerau masnach deg ac sy'n cyrraedd pob rhan o'r gymuned.

I'r gymuned Gristnogol, yn benodol, mae diwedd Traidcraft wedi bod yn golled enfawr ond mae'r frwydr yn parhau. Mae te, coffi a siwgr sy'n arddangos y nod masnach deg ar gael yn hawdd at ein defnydd personol ac ar gyfer ceginau ein heglwysi. Gallwn hefyd chwilio am nwyddau masnach deg, sy'n arbennig o bwysig yn y diwydiant ffasiwn. Mae Transform Trade (Traidcraft Exchange gynt) yn parhau i herio diwydiant a llywodraethau ac mae angen ein cefnogaeth ni i wneud hynny.

Cofiwch wrth i ni ddewis prynu cynnyrch masnach deg fel rhan o'n siopa wythnosol, rydyn ni'n creu diferyn sy'n llifo i mewn i lif gref cyfiawnder Duw.

## **Emyn:** A glywaist ti waedd yr anghenus (*CFf* 843)

## **Stori:** Mae'r frwydr am gyfiawnder yn parhau - stori o Golombia.

Mae bron i 2.5 miliwn o bobl Venezuela yn byw yng Ngholombia, ar ôl ffoi yn sgil argyfwng gwleidyddol a chwalfa economaidd eu gwlad eu hunain. Mae Jamiey, Cydlynydd Cenedlaethol Ymfudo dros yr Eglwys Fethodistaidd yng Ngholombia yn gweithio gyda theuluoedd ymfudol o Venezuela yn nhref arfordirol Santa Maria i helpu i gefnogi'r

merched ac i addysgu'r plant. Daw'r plant at ei gilydd mewn bwyty Tsieineaidd, sy'n eiddo i arweinydd cymunedol, lle maen nhw'n cael eu haddysgu gan athro o Venezuela. Mae'r perchennog yn darparu'r dodrefn a'r lle storio ac mae hefyd yn bwydo'r plant. Mae'r merched hefyd yn cael eu haddysgu ar gyrsiau sgiliau technolegol a chyfathrebu, yn ogystal â chyrsiau harddwch a chreu gemwaith.

Mae nifer y teuluoedd ymfudol, ynghyd ag effeithiau newid hinsawdd, wedi rhoi straen ar y cyflenwad dŵr. Mae'r Afon Don Diego yn cyflenwi dŵr ar gyfer y dref gyfan, sydd yn ddigonol mewn amseroedd arferol, ond mae'r pwll glo mwyaf yng Ngholombia yn cymryd dŵr o'r afon hefyd. O ganlyniad i hyn mae lefel y dŵr wedi gostwng, mae cymunedau wedi cael eu dadleoli, mae'r dŵr ar gyfer dyfrhau yn brin a dim ond dwywaith yr wythnos y mae'r bobl yn cael derbyn dŵr.

Mae angen mynd i'r afael o hyd ag anghyfiawnder mater y cyflenwad dŵr, ond oherwydd ymyrraeth Eglwys Fethodistaidd Colombia, mae gan fenywod ymfudol a'u plant bellach obaith am eu dyfodol.

I weld fideo sy'n dangos mwy am y frwydr dros gyfiawnder yng Ngholombia ewch i: **mwib.org.uk**

## Gweddïau o eiriolaeth

Dduw Cariad,
Cyflwynwn i ti y bobl yn y straeon rydyn ni newydd wrando arnyn nhw.
Gyda gobaith, ailddychmygwn y byd hwn yn fyd gwell
lle mae cyfiawnder a chariad yn teyrnasu.
Gweddïwn am fyd tecach, byd lle mae heddwch a chyfiawnder yn ffynnu.

Llifed cyfiawnder,
**a deled dy deyrnas.**

Gweddïwn dros bobl sy'n ceisio dy ewyllys di yma ar y ddaear:
y rhai sy'n gweithio dros heddwch, yn ymgyrchu dros gyfiawnder, yn ymladd dros y gorthrymedig, y rhai sy'n cael eu hecsbloetio, y difreintiedig;
y rhai sy'n ceisio cael gwared ar newyn a thlodi.

Llifed cyfiawnder,
**a deled dy deyrnas.**

Gweddïwn dros bobl sydd wedi dioddef yn sgil camweinyddu cyfiawnder;
pobl sydd wedi dioddef camwahaniaethu anghyfiawn,
pobl sydd wedi cael eu cyhuddo ar gam,
pobl sydd wedi cael eu carcharu'n anghyfiawn neu wedi eu cosbi'n annheg.

Llifed cyfiawnder,
**a deled dy deyrnas.**

Wrth i ni brofi canlyniadau newid hinsawdd, gweddïwn dros bobl sy'n dioddef effeithiau dinistriol yn ei sgil a thros bobl sydd wedi colli eu cartrefi. Rhoddwn ddiolch am y bobl hynny sydd wedi estyn croeso a chynnig lletygarwch, i'r rhai sy'n ymgyrchu dros gyfiawnder hinsawdd.

Llifed cyfiawnder,
**a deled dy deyrnas.**

Fel Eglwys sy'n ceisio cyfiawnder, rho ddoethineb, unplygrwydd ac ymroddiad i ni er mwyn i ni allu adnabod y mannau lle mae anghyfiawnderau. Helpa ni i weithredu arnyn nhw, gan geisio dy arweiniad bob amser.

Llifed cyfiawnder,
**a deled dy deyrnas. Amen.**

Gadewch i ni gyd-adrodd **Gweddi'r Arglwydd**, yn iaith ein calon.

## **Emyn:** Duw lefarodd drwy'r proffwydi (gobaith.cymru)

## (Neu: Arglwydd Iesu, dysg im gerdded (*CFf* 710)

Wrth ganu'r emyn hwn, gellid gwahodd pobl i ddod â'u rhoddion Offrwm Pasg tuag at Gronfa Cenhadaeth y Byd.

## Bendithio'r Offrwm

Cyflwynwn y rhoddion hyn i Gronfa Cenhadaeth y Byd drwy'r gwasanaeth Offrwm y Pasg hwn.

Gadewch i ni sefyll a dweud gyda'n gilydd:

**Dduw cariadus a grasol, down â'r rhoddion tuag at waith yr Eglwys Fethodistaidd drwy ei Chronfa Cenhadaeth y Byd. Boed i'r arian gael ei ddefnyddio i gefnogi ble mae angen, ac i rannu dy gariad sy'n hysbys i ni drwy fywyd Iesu Grist ein Gwaredwr. Gweddïwn dros y rhai fydd yn rhan o'r gwaith o ddosbarthu'r arian, ac i'r rhai fydd yn ei dderbyn, y bydd pob un yn dysgu mwy am dy haelioni a'th gariad tuag at ddynolryw. Amen.**

## Sylwadau Clo

Yn ein bywydau dim ond cyfran fechan iawn o fenter odidog gwaith Duw y byddwn yn ei chyflawni. Does dim a wnawn yn gyflawn, sy'n ffordd arall o ddweud fod y deyrnas bob amser y tu hwnt i ni...

Ond rydyn ni'n plannu hadau fydd yn tyfu rhyw ddiwrnod. Rydyn ni'n dyfrhau hadau sydd eisoes wedi'u plannu, gan wybod eu bod yn dal addewid am y dyfodol.

Rydyn ni'n gosod sylfeini y bydd angen eu datblygu ymhellach. Efallai ei fod yn anghyflawn, ond mae'n gychwyn, yn gam ar hyd y ffordd, yn gyfle i ras Duw ddod i mewn a gwneud y gweddill.

Rydyn ni'n broffwydi i ddyfodol nad yw'n perthyn i ni.
(Ken Untener o Saginaw, Pobl Cenedl Frodorol o Michigan, UDA)

## Y Fendith

Dduw Cariad,
Adnewydda ein hangerdd dros gyfiawnder.
Agor ein meddyliau wrth i ni dy wasanaethu yn ein bywydau bob dydd.
Boed i ni weld y byd drwy dy lygaid di,
boed i ni wrando gyda'th glustiau di.
Anfon ni allan gyda'th gariad a'th bwrpas yn ein calonnau i wneud dy ewyllys,
i fyw ac i weithio dros dy deyrnas ac er mwyn dy ogoniant nawr ac am byth.
**Amen.**

Merched Methodistaidd ym Mhrydain

dros ferched, dros gyfiawnder, dros Grist

**mwib.org.uk**

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

**methodist.org.uk/global-relationships**

Os hoffech chi wneud cais am yr adnodd hwn mewn fformat arall,
cysylltwch â ni i drafod eich anghenion ar publishing@methodistchurch.org.uk

Rhif elusen gofrestredig 1132208

© Ymddiriedolwyr at Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2024
GE302FR24